WEN Wales Cymru

CYFLWR Y GENEDL 2024

www.wenwales.org.uk
WENWales
WENWales
@WENWales

CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r chweched cyhoeddiad yn y gyfres Cyflwr y Genedl. Mae'n gyfres a ddatblygwyd gan Chwarae Teg mewn ymateb i uchelgais Llywodraeth Cymru i Gymru ddod yn *arweinydd byd o ran cydraddoldeb rhywedd*, a fynegwyd ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2018. Lansiwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Ionawr 2019 i ateb un cwestiwn syml – sef pa mor gyfartal yw Cymru? Bob blwyddyn, byddai'r adroddiad yn dwyn ynghyd dangosyddion allweddol ar gyfer cydraddoldeb rhywedd, a thrwy hynny ddarparu meincnod awdurdodol o ran cynnydd, neu ddiffyg cynnydd, tuag at yr uchelgais i gael Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd.

Ym mis Medi 2023, ar ôl mwy na 30 mlynedd o ymgyrchu dros Gymru sy'n gyfartal o ran rhywedd, daeth Chwarae Teg i ben. Er y bydd y golled i'w theimlo am flynyddoedd lawer i ddod, mae sefydliadau ac ymgyrchwyr dros hawliau menywod ledled Cymru wedi bod yn gweithio'n ddiflino i liniaru'r effaith andwyol anochel y bydd yn ei chael ar gydraddoldeb rhywedd a hawliau menywod yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfraniad RhCM Cymru i'r gwaith hwnnw. Flwyddyn ar ôl y golled dorcalonnus, mae'n fraint cael parhau â gwaddol Chwarae Teg trwy lansio Cyflwr y Genedl 2024.

Er bod y broses drosglwyddo wedi golygu bod adroddiad eleni ychydig y tu ôl i'r amserlen arferol, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y gyfres yn parhau yn ddi-dor. Er mwyn i'r adroddiad allu cael ei gwblhau yn gyflym, rydym wedi cadw at y strwythur gwreiddiol gan ddilyn tri maes gwaith strategol Chwarae Teg (Menywod yn yr Economi, Cynrychiolaeth Menywod, a Menywod sy'n Wynebu Risgiau); ond rydym yn adolygu hyn ar gyfer cyhoeddiadau yn y dyfodol.

Roedd yr oedi hefyd yn golygu bod gennym fynediad at ddata mwy newydd nag a fyddai wedi bod ar gael pe byddai'r adroddiad wedi'i lunio yn unol â'r amserlenni arferol. Roeddem wedi dewis y setiau data diweddaraf a'u cymharu o flwyddyn i flwyddyn â data diwygiedig ar gyfer blynyddoedd blaenorol os oedd hynny ar gael, oni nodir yn wahanol. Er bod hyn wedi arwain at anghysondebau bach rhwng y ffigurau ar gyfer 2022 a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ac yn adroddiad y llynedd, mae'n rhoi'r darlun mwyaf cywir a chyfredol ar adeg cyhoeddi'r adroddiad.

Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 2023 wedi gweld datblygiadau cymysg o ran cydraddoldeb rhywedd yn gyffredinol.

O edrych ar yr economi, cynyddodd y bwlch cyflog ar sail rhywedd yng Nghymru ychydig i 11.8%, sy'n mynd yn groes i duedd fwy cadarnhaol y DU gyfan. Mae

gwahaniaethau ar sail rhywedd o ran gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth wedi lleihau, ond mae'r ddwy gyfradd yn parhau i fod yn uwch yn achos dynion. Gostyngodd cyfraddau anweithgarwch economaidd a diweithdra ymhlith menywod ychydig. Ond mae menywod yn parhau i fod dros 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofal neu gyfrifoldebau domestig, a dros 2.5 gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod yn gweithio'n rhan-amser. Roedd data wedi'u dadgyfuno'n groestoriadol ynghylch anweithgarwch economaidd a diweithdra yn dangos rhai gwelliannau yn achos menywod anabl ac effaith gymysg ar fenywod o leiafrifoedd ethnig, ac roedd bylchau sylweddol o ran anabledd ac ethnigrwydd yn parhau.

Dangosodd gwahanu galwedigaethol fod yna welliannau bach mewn rhai diwydiannau sy'n talu cyflogau uchel ac sy'n cael eu dominyddu gan ddynion, ond law yn llaw â hynny roedd yna gynnydd yng nghyfran y menywod a gyflogir yn y sectorau sy'n talu'r cyflogau isaf, sy'n destun pryder. Er gwaethaf cynnydd cyfyngedig, a bod gan Gymru bellach gyfran uwch na Lloegr o fusnesau bach a chanolig eu maint a arweinir gan fenywod, mae menywod yn parhau i fod wedi'u tangynrychioli yn rolau arweinwyr busnes ac mewn swyddi uwch.

O ran cynrychiolaeth, cyflawnodd Cymru rai cerrig milltir allweddol ynghyd â phrofi rhwystrau mawr. Yn 2024 penodwyd Prif Weinidog benywaidd cyntaf Cymru a'r gyfran uchaf erioed o ASau benywaidd o Gymru, er i nifer yr arweinwyr llywodraeth leol benywaidd haneri i 9% yn unig.

Roedd dod o hyd i ddata cadarn am drais, aflonyddu a cham-drin ar sail rhywedd yn her unwaith eto. Mae cofnodion yr heddlu, y mae iddynt gyfyngiadau amlwg, yn awgrymu bod yna ostyngiad bychan iawn wedi bod yng nghyfran y troseddau trais rhywiol a throseddau'n ymwneud â cham-drin domestig yn erbyn menywod. Ond roedd y lefelau cyffredinol yn parhau i fod yn syfrdanol o uchel, gyda thua thri chwarter y troseddau a oedd yn ymwneud â cham-drin domestig a thros 80% o'r achosion o ymosodiadau rhywiol yn cael eu cyflawni yn erbyn menywod. Roedd gwasanaethau arbenigol yn wynebu pwysau digynsail oherwydd galw cynyddol, costau cynyddol, newidiadau rheoleiddiol a chyllid cystadleuol, byrdymor.

Ledled Cymru, roedd lefelau tlodi, unwaith eto, ymhlith yr uchaf ar gyfer aelwydydd un rhiant a'r rhai sy'n dibynnu ar incwm rhan-amser, a'r ddau achos yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Roedd y rhan fwyaf o bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol unwaith eto yn fenywod, ac mae menywod yn dal yn fwy tebygol na dynion o ddibynnu ar Gredyd Cynhwysol er eu bod yn gweithio, wrth i'r bwlch rhywedd ar gyfer hawlwyr sy'n gweithio gynyddu ychydig.

Er bod cynnydd wedi ei wneud mewn rhai meysydd y llynedd, roedd cyflymder y newid yn parhau i fod yn eithriadol o araf, ac mewn rhai achosion roeddem hyd yn oed wedi llithro tuag yn ôl. Wrth i ni lansio rhifyn cyntaf RhCM Cymru o Cyflwr y Genedl, rydym felly mewn sefyllfa o adleisio'r un neges a ailadroddwyd gan Chwarae Teg mewn adroddiadau blaenorol: heb ffocws, adnoddau ac ymrwymiad o'r newydd i ysgogi newid, nid yn unig y bydd cynnydd yn stopio; mae yna berygl y caiff ei ddad-wneud. Byddwn yn parhau i leisio'r neges hon wrth ein clymblaid fywiog o aelodau ledled Cymru nes y bydd ein gweledigaeth o Gymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd yn cael ei gwireddu.

CROESTORIADEDD

Ein gweledigaeth yn RhCM Cymru yw Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhywedd i *bob* menyw. Ni ellir cyflawni hyn heb gydnabod bod profiadau menywod yng Nghymru yn aml yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar yr hunaniaethau a'r safleoedd cymdeithasol eraill sydd ganddynt. Dyma'r hyn yr ydym yn aml yn cyfeirio ato fel *croestoriadedd*.

Bathwyd y term gan yr ysgolhaig cyfreithiol Kimberlé Crenshaw yn 1989 fel fframwaith i ddeall sut y mae profiad menywod Du o wahaniaethu yn wahanol i brofiadau menywod Gwyn a dynion Du, ac mae'n aml yn cael ei ddileu mewn dadansoddiadau ffeministaidd a gwrth-hiliol. Mewn theori, mae croestoriadedd yn disgrifio'r modd y mae strwythurau pŵer sy'n gysylltiedig â rhywedd, hil, rhywioldeb, hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd, dosbarth, oedran, ffydd a nodweddion eraill yn rhyngweithio. Wrth wneud hynny, maent yn creu, yn lluosi ac yn addasu profiadau o fraint a gormes.

Yn ymarferol, mae unigolion sy'n profi gwahaniaethu croestoriadol yn tueddu i wynebu heriau ychwanegol a chanlyniadau gwaeth. Gellir gweld hyn yn aml mewn data – os caiff y data hynny eu casglu a'u cyhoeddi. Mae hyn wedi bod yn her, yn enwedig yng Nghymru lle mae meintiau samplau yn aml yn fach, ond nid yw'n anorchfygol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei hymrwymiad i ddefnyddio dull croestoriadol yn y dirwedd gynyddol gymhleth o gynlluniau gweithredu cydraddoldeb uchelgeisiol. Edrychwn ymlaen at waith yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i sicrhau bod fframweithiau atebolrwydd yn cael eu llywio gan ddata am brofiad menywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol.

Yn unol â'r duedd yn achos pob menyw, mae cyfraddau anweithgarwch economaidd a diweithdra ar gyfer menywod anabl wedi gostwng ychydig bach, sef 1.7% a 0.9% yn y drefn honno, ond maent yn parhau i fod tua dwy ran o dair yn uwch na'r ffigurau cyffredinol ar gyfer menywod. Mae'r bwlch rhywedd o

ran cyfraddau anweithgarwch economaidd ar gyfer pobl anabl yn gymharol fach, a'r llynedd, roedd anweithgarwch economaidd ar gyfer menywod anabl (44.8%) yn is nag ar gyfer dynion anabl (45.5%).

O ran menywod o leiafrifoedd ethnig, mae'r gyfradd ddiweithdra hefyd wedi gostwng 2.2%, ond mae cyfraddau cyflogaeth sydd fymryn yn is a chynnydd o 3.9% mewn anweithgarwch economaidd yn rhoi darlun cymysg. Mae'r holl ffigurau yn parhau i fod ar ei hol hi'n sylweddol o gymharu â'r ffigurau ar gyfer menywod Gwyn a dynion o leiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, roedd menywod o leiafrifoedd ethnig dros deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na menywod Gwyn, a bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar na dynion o leiafrifoedd ethnig.

Er bod y data 'pob menyw' a ddefnyddir yng ngweddill yr adroddiad yn dangos effaith gyffredinol anghydraddoldeb o ran rhywedd mewn modd pwerus, ychydig iawn y maent yn ei ddweud wrthym am y modd y gallai'r effaith hon amrywio yn achos menywod â hunaniaethau croestoriadol gwahanol. Cyn i Chwarae Teg ddod i ben, gwnaeth waith cwmpasu cychwynnol i nodi rhagor o ddata wedi'u dadgyfuno'n groestoriadol y gellid eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Rydym yn benderfynol o adeiladu ar hyn a gweithio tuag at sicrhau cynrychiolaeth well o groestoriadedd yn Cyflwr y Genedl drwyddi draw.

ANABLEDD A GWEITHGARWCH ECONOMAIDD 2022-23

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2021-Mehefin 2022 a Gorffennaf 2022-Mehefin 2023



STATWS CYFLOGAETH YN ÔL RHYWEDD AC ETHNIGRWYDD

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2021-Mehefin 2022 a Gorffennaf 2022-Mehefin 2023



MENYWOD YN YR ECONOMI

Mae menywod yn parhau i fod mewn sefyllfa anghyfartal yn economi Cymru. Maent yn fwy tebygol na dynion o fod yn economaidd anweithgar neu o fod yn gweithio'n rhan-amser, ac maent yn tueddu i gael eu cyflogi mewn rolau, sectorau, galwedigaethau a swyddi gwahanol, ac mewn mathau gwahanol o swyddi. Mae'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu stereoteipiau ar sail rhywedd a'r ffaith bod gan fenywod fwy o gyfrifoldebau gofal, a gellir gweld y bylchau cyflog ar sail rhywedd sy'n deillio o hynny ledled y rhan fwyaf o Gymru.

Wrth i gyfraddau chwyddiant prisiau defnyddwyr ostwng ers hydref 2022, mae costau byw wedi cynyddu'n arafach na'r llynedd, ond bu i fenywod barhau i deimlo'r effaith yn fwy difrifol na dynion. Cynyddodd y bwlch cyflog ar sail rhywedd yng Nghymru o 11.4% i 11.8%, wrth i'r ffigur ar gyfer y DU gyfan leihau o 14.9% i 14.3%. Mae gwahaniaethau sylweddol yn dal i fodoli ledled Cymru. Aeth Ynys Môn a Sir y Fflint ar y blaen i Gastell-nedd Port Talbot, a nhw bellach yw'r awdurdodau lleol â'r bylchau cyflog ar sail rhywedd mwyaf, sef 24.6% a 22.5% yn y drefn honno. Merthyr Tudful a Chonwy a welodd y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn, sef 19.3% a 14.9% yn y drefn honno. Roedd hyn yn golygu eu bod wedi symud o fwlch cyflog ar sail rhywedd negatif i un positif, a bod nifer yr awdurdodau lleol a chanddynt fwlch cyflog ar sail rhywedd negatif wedi gostwng i ddau yn unig – sef Ceredigion (-7.9%) a Sir Caerfyrddin (-3.8%).

Ledled Cymru, mae'r bylchau mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth wedi lleihau, ond mae'r ddwy gyfradd yn parhau i fod uwch ar gyfer dynion o gymharu â menywod. Ymhlith pobl ifanc 20 i 24 oed, roedd y bwlch gweithgarwch economaidd wedi'i wrthdroi, wrth i fenywod yn y grŵp oedran hwn fod fymryn yn fwy tebygol o fod yn economaidd weithgar na dynion. Gellid gweld y bwlch mwyaf ymhlith pobl 35 i 49 oed, gyda chyfraddau anweithgarwch economaidd 8.5% yn uwch ar gyfer menywod na dynion.

Nododd mwy na chwarter y menywod (25.2%) mai gofalu am y teulu neu'r cartref oedd y rheswm dros anweithgarwch economaidd, gan olygu eu bod dros 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofal neu ddomestig na dynion. Cynyddodd y bwlch rhywedd a chanran gyffredinol y menywod a nododd y rheswm hwn o gymharu â 2022. Gostyngodd cyfran y menywod a oedd yn economaidd anweithgar am eu bod yn fyfyrwyr o 23.6% i 18.9%, sef y newid mwyaf o flwyddyn i flwyddyn a welwyd ar draws yr ystadegyn hwn.

Gostyngodd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer menywod o 3.2% i 2.8%, wrth i'r gyfradd ar gyfer dynion gynyddu fymryn. Ar y cyfan, mae cyfran y dynion a'r menywod sy'n hunangyflogedig wedi aros yn sefydlog, ac mae yna fwlch rhywedd amlwg o hyd.

Mae'r bwlch rhywedd o ran gweithio'n rhan-amser wedi lleihau fymryn ac, ymhlith pobl ifanc 20 i 24 oed, roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o fod yn gweithio'n rhan-amser. Ac eto, yn gyffredinol, mae menywod yn parhau i fod dros 2.5 gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod yn weithwyr rhan-amser.

TÂL FESUL AWR

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), 2022-23, Daearyddiaeth Gwaith, Tabl 7.6a

CYFLOG CANOLRIFOL YR AWR[1]



[1] Defnyddiwyd cyhoeddiad set ddata dros dro 2022.

BWLCH CYFLOG AR SAIL RHYWEDD YN ÔL AWDURDOD LLEOL

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), 2022-23, Daearyddiaeth Gwaith, Tabl 7.6a



CYMHARU'R BWLCH CYFLOG AR SAIL RHYWEDD 2022-2023

Local Authority	2022[2]	2023	Y gwahaniaeth
DU	14.9%	14.3%	-0.6%
Cymru	11.4%	11.8%	0.4%
Blaenau Gwent	17.2%	4.1%	-13.1%
Pen-y-bont ar Ogwr	15.4%	8.8%	-6.6%
Caerffili	12.6%	15.9%	3.3%
Caerdydd	11.8%	8.6%	-3.2%
Sir Gaerfyrddin	-1.6%	-3.8%	-2.2%
Ceredigion	-10.1%	-7.9%	2.2%
Conwy	-4.7%	10.2%	14.9%
Sir Ddinbych	16.6%	16.5%	-0.1%
Sir y Fflint	22.1%	22.5%	0.4%
Gwynedd	5.9%	5.2%	-0.7%
Ynys Môn	19.1%	24.6%	5.5%
Merthyr Tudful	-7.8%	11.5%	19.3%
Sir Fynwy	13.9%	16.3%	2.4%
Castell-nedd Port Talbot	29.8%	21.9%	-7.9%
Casnewydd	12.3%	12.0%	-0.3%
Sir Benfro	14.4%	15.3%	0.9%
Powys	13.9%	2.3%	-11.6%
Rhondda Cynon Taf	17.3%	8.9%	-8.4%
Abertawe	1.1%	7.6%	6.5%
Torfaen	16.4%	16.1%	-0.3%
Bro Morgannwg	15.5%	14.0%	-1.5%
Wrecsam	8.7%	4.3%	-4.4%

[2] Defnyddiwyd cyhoeddiad set ddata dros dro 2022.

GWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023





16-64 oed yn economaidd weithgar

ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023





Mae 26.7% o fenywod yn economaidd anweithgar o gymharu â 20.8% o ddynion

RHESYMAU DROS FOD YN ECONOMAIDD ANWEITHGAR YN ÔL RHYWEDD

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023



CYFRADDAU CYFLOGAETH A DIWEITHDRA

CYFRADDAU DIWEITHDRA YN ÔL RHYWEDD AC OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023



HUNANGYFLOGAETH

GYFRAN O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N HUNANGYFLOGEDIG

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2021-Mehefin 2022 a Gorffennaf 2022-Mehefin



PATRYMAU GWAITH

GYFRAN O FENYWOD A DYNION 16-64 OED SY'N GWEITHIO'N RHAN-AMSER

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2021-Mehefin 2022 a Gorffennaf 2022-Mehefin 2023



PATRYMAU GWAITH YN ÔL OEDRAN

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023



PATRYMAU GWAITH YN ÔL ORIAU

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023



CYNRYCHIOLAETH MENYWOD

Mae cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal yn nodwedd allweddol o ddemocratiaeth iach. Mae angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau adlewyrchu'r boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu, fel bod eu gwaith yn cael ei lywio gan safbwyntiau gwahanol, gan gynnwys safbwyntiau cymunedau ar y cyrion. Yn 2003, Cymru oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i sicrhau cynrychiolaeth o 50% i fenywod. Ond methodd y nod ym mhob etholiad ers hynny, ac mae cynrychiolaeth menywod sy'n profi gwahaniaethu croestoriadol wedi aros yn gyfyngedig iawn.

Cafwyd darlun cymysg y llynedd a oedd yn cynnwys rhai datblygiadau o bwys yn ogystal â rhwystrau. Yn 2024 penodwyd Prif Weinidog benywaidd cyntaf Cymru, sef Eluned Morgan MS, sy'n garreg filltir ar gyfer cynrychiolaeth menywod yng Nghymru. Roedd 47% o'r Aelodau Seneddol o Gymru a etholwyd yn Etholiad Cyffredinol y DU yn fenywod, sy'n record. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigur cyffredinol o 40% o ASau benywaidd a etholwyd i San Steffan.

Ar lefel y Senedd, ni fu unrhyw newid yng nghynrychiolaeth menywod, a arhosodd ar 43%, gydag un fenyw yn unig o gefndir ethnig leiafrifol a dim ond un fenyw yn uniaethu'n agored â hunaniaeth LHDTC+. Gan nad oes yna ffigurau cyfredol ar gael ar gyfer cynghorwyr llywodraeth leol, rydym wedi cyhoeddi canlyniadau etholiadau 2022 (36%), sy'n annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol. Yn ôl Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022, roedd 3% o'r ymgeiswyr a etholwyd o gefndir ethnig leiafrifol ac roedd 8% yn uniaethu â hunaniaeth LHDTC+, ond oherwydd cyfraddau ymateb amrywiol ac isel, gallai'r ffigurau go iawn amrywio'n sylweddol.[3]

Ar ôl ad-drefnu sawl gwaith, ym mis Medi 2024, roedd 64% o aelodau Cabinet Llywodraeth Cymru yn fenywod, sydd yr un fath â ffigur y llynedd. O ran arweinyddiaeth mewn llywodraeth leol, arhosodd cyfran y Prif Weithredwyr benywaidd yn sefydlog ar 23%, wrth i gyfran arweinwyr benywaidd llywodraeth leol haneru i ganran pitw, sef 9%.

Gan nad yw heriau o ran data sy'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus wedi'u datrys hyd yma, y ffigurau diweddaraf sydd ar gael i'r cyhoedd yw'r rhai ar gyfer 2021-22 o hyd, sydd wedi'u hatgynhyrchu eto yn yr adroddiad hwn. Mae argaeledd data ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill a chroestoriadedd, gan gynnwys cynrychiolaeth menywod anabl, yn parhau i fod yn broblem gyffredinol.

CYNRYCHIOLAETH YNG NGWLEIDYDDIAETH CYMRU



- ASau sy'n fenywod
- Cynghorwyr sy'n fenywod
- ASau Cymru (San Steffan) sy'n fenywod



- Cabinet Llywodraeth Cymru

ARWEINYDDIAETH MEWN LLYWODRAETH LEOL



- Prif Weithredwyr Cynghorau sy'n Fenywod
- Arweinwyr Cynghorau sy'n Fenywod

CYNRYCHIOLAETH YM MYWYD CYHOEDDUS CYMRU



- Menywod a benodwyd
- Menywod a ailbenodwyd

BUSNES A'R GWEITHLE

Mae arwahanu ar sail rhywedd ar draws sectorau a galwedigaethau gwahanol yn parhau i fod yn un o'r elfennau allweddol yn y bwlch cyflog rhywedd yng Nghymru. Ar lefel sectorau, gwelsom welliannau bach mewn rhai diwydiannau sy'n talu cyflogau uchel sydd yn draddodiadol yn cael eu dominyddu gan ddynion. Ond law yn llaw â hynny bu yna gynnydd yng nghyfran y menywod a gyflogir yn y sectorau sy'n talu'r cyflogau isaf, sy'n destun pryder. Mae'r datblygiad hwn yn peri pryder arbennig gan ein bod yn y broses o drawsnewid mawr i economi werdd. Mae'n awgrymu y bydd menywod yn cael eu gadael ar ôl yn y broses hon oni bai bod llywodraethau, busnesau ac addysgwyr yn cymryd camau pendant i sicrhau bod menywod yn cymryd rhan ar bob lefel.

Y sectorau lle roedd yr arwahanu ar sail rhywedd mwyaf yn digwydd yn 2023 oedd amaethyddiaeth, mwyngloddio ac adeiladu. Mae bylchau ym meysydd cludiant ac iechyd wedi lleihau fymryn. Er bod y ffigurau ar gyfer y sector amaeth yn tueddu i fod yn anwadal, mae'r gostyngiad o 30.9% yn nifer y menywod sy'n gweithio yn y sector hwn yn rhyfeddol ac mae angen ymchwilio iddo ymhellach. Ar yr ochr gadarnhaol, y llynedd gwelwyd cynnydd o 9.9% yn nifer y menywod sy'n gweithio ym meysydd gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, sy'n un o'r sectorau sy'n talu cyflogau uwch. Ond ar yr un pryd, mae cynrychiolaeth mewn sectorau eraill sy'n talu cyflogau uchel ac sy'n cael eu dominyddu gan ddynion, megis cyllid a thrydan, wedi lleihau fymryn, ac mae gostyngiad mawr o 7.1% wedi bod ym maes gwybodaeth a chyfathrebu. Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw bod twf sylweddol wedi bod y llynedd yng nghyfran y menywod sy'n gweithio yn rhai o'r sectorau sy'n talu'r cyflogau isaf, gan gynnwys gweithgareddau gwasanaethau eraill (13.9%), llety a bwyd (6%) a chyfanwerthu a manwerthu (4.6%).

Er gwaethaf cynnydd cyfyngedig, mae menywod yn parhau i fod wedi'u tangynrychioli yn rolau arweinwyr busnes ac mewn swyddi uwch. Maent yn parhau i gyfrif am lai na 40% o reolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion. Ar yr ochr gadarnhaol, cynyddodd cyfran y busnesau bach a chanolig (BBaCh) a arweinir gan fenywod yng Nghymru 5%, gan olygu bod canran yr arweinwyr busnes benywaidd yng Nghymru wedi codi i 19%. Er bod hyn ychydig yn uwch na'r ffigur cyffredinol ar gyfer y DU (18%), mae'r sefyllfa ymhell o fod yn gyfartal.

CYDBWYSEDD O RAN RHYWEDD YN Y SECTORAU YNG NGHYMRU

Ffynhonnell: Workforce jobs by industry (SIC 2007) and sex, Mehefin 2023



CYFAN Y DYNION A'R MENYWOD SY'N GWEITHIO MEWN GALWEDIGAETHAU GWAHANOL

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023

● Dynion ● Menywod

GALWEDIGAETHAU		Y GWAHANIAETH 2022-2023
Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion	11.2% 7.8%	↑ 0.4% ↑ 0.1%
Galwedigaethau proffesiynol	20.4% 24.9%	↓ -0.8% ↑ 0.6%
Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt	14.2% 14.1%	↑ 0.4% ↑ 0.9%
Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	5% 14.4%	↓ -0.3% ↑ 1.1%
Galwedigaethau crefftau medrus	17% 2.9%	↓ -1.3% ↓ -0.2%
Gofal, hamdden a galwedigaethau gwasanaethau eraill	3.9% 15.1%	↓ -0.4% ↓ -1.9%
Galwedigaethau gwerthiant a gwasanaeth cwsmeriaid	5.1% 8.6%	↓ -0.1% ↓ -0.7%
Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau	10.9% 1.8%	↓ -0.7% ↓ -0.2%
Galwedigaethau elfennol (SOC2020)	11.6% 10.2%	↑ 1.1% ↑ 0.7%

CYFRAN Y MENYWOD A'R DYNION MEWN ROLAU UWCH A PHROFFESIYNOL

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2022-Mehefin 2023

● Dynion ● Menywod



ARWEINWYR BUSNES

Ffynhonnell: Longitudinal Small Business Survey 2022

Yng Nghymru, mae

19%

o fusnesau bach a chanolig yn cael eu harwain gan fenywod

Ledled y DU, mae

18%

o fusnesau bach a chanolig yn cael eu harwain gan fenywod

MENYWOD MEWN PERYGL

Oherwydd eu sefyllfa gymdeithasol ac economaidd anghyfartal, mae menywod yn wynebu mwy o berygl o dlodi a chaledi ariannol, yn ogystal â chamdriniaeth, aflonyddu a thrais ar sail rhywedd.

Yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), mae dod o hyd i ddata cadarn, cymaradwy yn parhau i fod yn arbennig o heriol. Mae'r data a gesglir ac a gyhoeddir yn flynyddol yn seiliedig i raddau helaeth ar gofnodion yr heddlu. Nid yw ond yn taflu goleuni ar rai agweddau ar y cam-drin, yr aflonyddu a'r trais y mae menywod yn eu dioddef o ddydd i ddydd. Yn gyffredinol, nid yw data sy'n seiliedig ar gofnodion yr heddlu yn cael eu dadgyfuno ar gyfer Cymru chwaith. Yn bwysicaf oll, oherwydd graddfa'r diffyg cofnodi – yn ôl Rape Crisis Cymru a Lloegr, nid yw pump o bob chwe menyw sy'n cael ei threisio yn rhoi gwybod i'r heddlu – mae hefyd yn druenus o anghyflawn. Yn unol ag adroddiadau Cyflwr y Genedl blaenorol, mae'r adran hon yn cyflwyno'r data mwyaf diweddar sydd ar gael i helpu i ddangos maint ac effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, hyd yn oed os yw hynny'n golygu bod llawer o'r ffigurau'n ymwneud â Chymru a Lloegr ac nad yw bob amser yn bosibl eu cymharu o flwyddyn i flwyddyn.

Mae cofnodion yr heddlu a gyhoeddir yn flynyddol, gyda'r holl gafeatau a grybwyllir uchod, yn dangos gostyngiad bychan iawn yng nghyfran y troseddau sy'n ymwneud â thrais rhywiol a cham-drin domestig yn erbyn menywod ledled Cymru a Lloegr y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt. Mae'r ffigurau cyffredinol yn parhau i fod yn syfrdanol o uchel, gyda thua thri chwarter y troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig a thros 80% o'r achosion o ymosodiadau rhywiol yn cael eu cyflawni yn erbyn menywod. Yn wyneb yr argyfwng costau byw parhaus, mae hefyd yn werth nodi bod gwasanaethau yn y gymuned yng Nghymru wedi gweld cynnydd o 28% yn yr achosion o gam-drin ariannol y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Mae gwasanaethau arbenigol yng Nghymru yn parhau i fod dan bwysau digynsail. Gwelodd Cymorth i Fenywod Cymru gynnydd yn y galw am 70% o'r gwasanaethau ar gyfer ei haelodau, a hynny wrth i'r sefydliad geisio mynd i'r afael ag effaith costau cynyddol, newidiadau rheoleiddiol a thirwedd ariannu byrdymor a chynyddol gystadleuol ar yr un pryd. Gwasanaethau llai, sy'n darparu cymorth hanfodol 'gan ac ar gyfer' menywod o gymunedau ar y cyrion, sydd yn aml yn cael eu taro waethaf gan hyn. Mae'r angen am gyllid cynaliadwy, ynghyd ag agwedd ymroddedig at ddileu achosion sylfaenol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hynny ar bob lefel o gymdeithas, yn parhau i fod mor bwysig ag erioed.

AFLONYDDU A DIOGELWCH (CYMRU A LLOEGR)

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Experiences of harassment prevalence and nature tables, Cymru a Lloegr, Mawrth 2023, Tabl 3



Rhwng 16-24 oed wedi profi aflonyddu rhywiol yn ystod y 12 mis diwethaf



Rhwng 16-24 oed wedi profi cyffwrdd digroeso



Rhwng 16-24 oed wedi profi jôcs, sylwadau neu ystumiau rhywiol amhriodol

DIOGELWCH MEWN MANNAU CYHOEDDUS

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022



Yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu



Yn teimlo'n ddiogel iawn ar gludiant cyhoeddus ar ôl iddi dywyllu



Yn teimlo'n ddiogel (gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, wrth deithio)

CYFRAN Y TROSEDDAU A GOFNODWYD GAN YR HEDDLU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHAM-DRIN DOMESTIG, CYMRU A LLOEGR

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Domestic Abuse Prevalence and Victim Characteristics, Tablau yn yr Atodiadau, Mawrth 2023, Tabl 15



MYNYCHDER YR ACHOSION O GAM-DRIN DOMESTIG

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Domestic Abuse Prevalence and Victim Characteristics, Tablau yn yr Atodiadau, Mawrth 2023, Tabl 8, 11 a 15

2023

Roedd **16.4%** o'r holl droseddau a gofnodwyd yng Nghymru yn ymwneud â cham-drin domestig

Roedd **50.3%** o'r holl droseddau trais yn erbyn menywod a gofnodwyd yn ymwneud â cham-drin domestig

Roedd **73.5%** o'r holl ddioddefwyr cam-drin domestig a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr yn fenywod

TRAIS RHYWIOL

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Crime in England and Wales: Tablau yn yr Atodiadau, Mawrth 2023, Tabl A4

83.5%
O ACHOSION YMOSODIADAU RHYWIOL A GOFNODWYD YN CAEL EU CYFLAWNI YN ERBYN MENYWOD

93%
O DROSEDDAU RHYWIOL SY'NYMWNEUD Â CHAM-DRIN DOMESTIG A GOFNODWYD YN CAEL EU CYFLAWNI YN ERBYN MENYWOD

Y GALW AM WASANAETHAU CYMORTH LLOCHES, CYMUNEDOL, A THRAIS RHYWIOL YNG NGHYMRU

Ffynhonnell: Adroddiad Cymorth i Fenywod Cymru ar Gyflwr y Sector 2023-24

CYNNYDD O 53% mewn ceisiadau i linell gymorth Byw Heb Ofn am le mewn lloches ddiogel

712 o oroeswyr wedi methu cael mynediad at wasanaethau allweddol lloches, a **28%** o'r rheiny oherwydd diffyg lle mewn llochesi

Gwelodd **70%** o wasanaethau arbenigol gynnydd yn y galw amdanynt

Gwelodd gwasanaethau yn y gymuned gynnydd o **28%** mewn adroddiadau o gam-drin ariannol

LLINELL GYMORTH BYW HEB OFN 0808 80 10 800 (GALWAD FFÔN/NEGES DESTUN)

MAE DATA AR DRAWS CYMRU A LLOEGR YN DANGOS Y CANLYNOL:

MAE 1 O BOB 4 MENYW WEDI CAEL EI THREISIO NEU WEDI DIODDEF YMOSODIAD RHYWIOL FEL OEDOLYN[4]

68,949
O ACHOSION O DRAIS A GOFNODWYD GAN YR HEDDLU YN Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN YM MIS MAWRTH 2023[5]

DIM OND 2 O BOB 100 O ACHOSION O DREISIO A GOFNODWYD GAN YR HEDDLU A ARWEINIODD AT GYHUDDIAD YN YR UN FLWYDDYN[6]

MAE 1 O BOB 2 O ACHOSION O DREISIO YN ERBYN MENYWOD YN CAEL EU CYFLAWNI GAN EU PARTNER NEU GYN-BARTNER[7]

TLODI

Mae safle anghyfartal menywod yn y farchnad lafur yn eu gwneud yn fwy agored i dlodi. Er bod lefelau cyffredinol tlodi incwm cymharol yng Nghymru ychydig yn is na rhai Lloegr (22%) am y tro cyntaf mewn degawd, roeddent yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel, sef 21%. Mae'r gostyngiad mewn lefelau tlodi yn achos aelwydydd un rhiant (8%), menywod sengl (4%) a phensiynwyr benywaidd sengl (4%) yn galonogol. Ond rhieni sengl, y mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn fenywod, oedd yn parhau i wynebu'r risg uchaf o blith pob math o aelwyd, gyda bron un o bob tri ohonynt yn profi tlodi incwm cymharol.

Roedd lefelau tlodi yn achos aelwydydd sy'n dibynnu ar waith rhan-amser yn unig, yn dal i fod o gwmpas traean (30%), sy'n arwyddocaol gan fod menywod yn parhau i fod 2.5 gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod yn gweithio'n rhan-amser.

Mae'r ffigurau hyn, o'u mesur ar lefel aelwydydd, yn annhebygol o gynrychioli gwir hyd a lled tlodi menywod. Mae'n bosibl na chaiff adnoddau rhwng cyplau heterorywiol eu rhannu'n gyfartal, yn enwedig gan fod menywod yn dueddol o fod â llai o fynediad at incwm annibynnol am eu bod yn enillwyr incwm eilaidd neu'n brif ofalwyr. Gan eu bod yn 'cysgodi eu teuluoedd rhag tlodi', mae mamau hefyd yn aml yn mynd heb yr hanfodion er mwyn darparu ar gyfer eu plant.[8]

TLODI INCWM CYMHAROL YN ÔL MATH O DEULU

Ffynhonnell: Stats Cymru, Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI), 2023: Pobl mewn tlodi cymharol yn ôl math o deulu 2019-20 i 2021-22 a 2020-21 i 2022-23



PATRYMAU GWAITH A THLODI

Ffynhonnell: Stats Cymru, Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI), 2023: Pobl mewn tlodi cymharol yn ôl math o deulu 2019-20 i 2021-22 a 2020-21 i 2022-23





YNG NGHYMRU YN GWEITHIO'N RHAN-AMSER

O AELWYDYDD YNG NGHYMRU YN BYW MEWN TLODI INCWM CYMHAROL

DIWYGIO NAWDD CYMDEITHASOL A LLES

Dylai'r system nawdd cymdeithasol ddarparu rhwyd ddiogelwch hanfodol i bobl sy'n wynebu diweithdra neu drafferthion ariannol. Mae'r ffaith bod aelwydydd heb waith yn parhau i wynebu'r perygl mwyaf o dlodi (45%) yn dangos y methiant parhaus i gyflawni hyn.

Credyd Cynhwysol yw'r brif ffynhonnell cymorth i'r rhai sy'n ddi-waith, yn ogystal ag i'r rhai nad yw eu hincwm yn darparu digon i fyw arno. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn fenywod, a chynyddodd y ffigur hwn fymryn i 58%. Bu gostyngiad bach yng nghanran y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac sydd mewn gwaith, a hynny yn achos dynion a menywod. Er hynny, mae menywod yn parhau i fod yn fwy tebygol na dynion o orfod dibynnu ar Gredyd Cynhwysol er gwaetha'r ffaith fod ganddynt swydd, a bu yna fymryn o gynnydd yn y bwlch rhywedd ar gyfer hawlwyr sy'n gweithio. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith, oherwydd ffactorau cymhleth gan gynnwys cyfrifoldebau gofal anghyfartal, fod menywod yn parhau i weithio am lai o oriau ac yn aml yn cael eu talu ar gyfradd is fesul awr na dynion.

Mae llawer o sylw wedi'i roi i gyfyngiadau Credyd Cynhwysol o ran amddiffyn menywod rhag tlodi a'u cynorthwyo i ddod yn annibynnol yn ariannol.[9] Bydd y patrymau hyn yn cael eu gwreiddio ymhellach gan fod Llywodraeth Lafur newydd y DU wedi gwrthod cael gwared ar y cyfyngiad o ddau blentyn, y mae beirniadaeth hallt iddo, ac nid yw eto wedi ymrwymo i ddileu cynlluniau ei rhagflaenydd ar gyfer mwy o amodau yn ymwneud â budd-daliadau.

CANRAN Y DYNION A'R MENYWOD SY'N CAEL CREDYD CYNHWYSOL

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Medi 2022-23, trwy Stat-Xplore



Mae

o'r rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn fenywod

Mae



sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru mewn gwaith

CASGLIAD

Bu 2023 yn flwyddyn heriol arall ar gyfer cydraddoldeb rhywedd. Er bod chwyddiant wedi llacio'i afael yn araf, a rhai ffigurau wedi gwella, roedd yr effeithiau ehangach ar fenywod yn amlwg ledled y meysydd gwahanol a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Arweiniodd pwysau cyllidebol yn 2023 at ostyngiadau mewn termau real i wasanaethau cyhoeddus a thoriadau dwfn i'r gyllideb gofal plant a chydraddoldeb a hawliau dynol, sydd oll yn effeithio ar fenywod mewn modd anghymesur.

Er bod yr ymrwymiad i gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn gryf yn draddodiadol, rhaid peidio â dadflaenoriaethu hyn wrth i bethau fynd yn anodd. Rhaid i'r llywodraeth, busnesau a chymdeithas sifil ganolbwyntio o'r newydd i roi eu geiriau ar waith. Rhaid ailflaenoriaethu buddsoddiadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gofal plant, a sicrhau cynnydd ataliol ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn yr hirdymor. Rhaid i fusnesau sicrhau mynediad cyfiawn at gyflogaeth sy'n talu'n deg trwy roi modelau gweithio'n hyblyg ar waith, cefnogi'r rheiny sydd â chyfrifoldebau gofal, a chael gwared ar aflonyddu a gwahaniaethu yn y gweithle. Ar lefel cymdeithas sifil, rhaid i ni herio casineb a chamwybodaeth, cydsefyll wrth lywio'r dirwedd ariannu hynod o heriol, a hyrwyddo lleisiau'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf yn ein cymdeithas.

Wrth symud ymlaen, mae angen i ni ganolbwyntio ac ymrwymo o'r newydd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a all ddod i'n rhan. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Lafur wedi ei hethol yn y DU yn argoeli y bydd yna berthynas rynglywodraethol fwy cydweithredol, a allai ei gwneud yn haws i Lywodraeth Cymru gyflawni'r amcanion polisi sy'n cyd-fynd, megis lleihau tlodi mewn gwaith a bylchau cyflog, a mynd i'r afael â thrais, aflonyddu a cham-drin ar sail rhywedd. Er bod y posibilrwydd o fframwaith cyllidol newydd i Gymru ar y gorwel, bydd y cyd-destun cyllidebol dros dro yn parhau i fod yn heriol. Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i fantoli'r cyfrifon a chyfyngu ar ddyledion yn golygu nad yw'n debygol y byddwn yn gweld buddsoddiadau mawr, a fyddai'n arwain at gynnydd cyfatebol yn symiau canlyniadol Barnett, am beth amser.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb wedi'i drosi'n gynlluniau diriaethol, sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddiweddaru'r fframwaith gweithredu ar anabledd ac i gyflawni camau gweithredu sy'n weddill a chamau gweithredu hirdymor yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft yn ceisio dod â'r cynlluniau amrywiol hyn ynghyd y tu ôl i dair egwyddor: prif ffrydio cydraddoldeb, mabwysiadu dull croestoriadol, a mynd i'r afael â'r bwlch gweithredu. Er bod yr ymrwymiad i'r egwyddorion hyn wrth fodd ymgyrchwyr dros gydraddoldeb, mae hon yn dasg uchelgeisiol, a rhaid aros i weld a fydd y weledigaeth yn cael ei gwireddu.

Gan fod y Cynllun Gweithredu Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru wedi dod i ben yn 2023, mae'n hollbwysig bod cynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer cydraddoldeb rhywedd yn cael ei ddatblygu i nodi camau gweithredu uchelgeisiol ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf. Yn seiliedig ar brofiad cynlluniau gweithredu eraill a gyhoeddwyd ers hynny, dylai'r cynllun hwn gael ei ategu gan fframwaith gwerthuso cadarn i sicrhau cynnydd mesuradwy a fydd, yn y pen draw, yn cael ei adlewyrchu yn y data a gyflwynir yn Cyflwr y Genedl.

ÔL-NODIADAU

[1] Crenshaw, K. (1989), Demarginalizing the Intersection of Race and Sex: A Black Feminist Critique of Antidiscrimination Doctrine, Feminist Theory and Antiracist Politics, University of Chicago Legal Forum 139. Ar gael yma: https://scholarship.law.columbia.edu/faculty_scholarship/3007/

[2] Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol: 2022, Llywodraeth Cymru (2023), https://www.llyw.cymru/arolwg-ymgeiswyr-llywodraeth-leol-2022

[3] Rape Crisis Cymru a Lloegr, Ystadegau am Dreisio ac Ymosodiadau Rhywiol, https://rapecrisis.org.uk/get-informed/statistics-sexual-violence/

[4] Rape Crisis Cymru a Lloegr, Ystadegau am Dreisio ac Ymosodiadau Rhywiol, https://rapecrisis.org.uk/get-informed/statistics-sexual-violence/

[5] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023), Crime in England and Wales: year ending March 2023, https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2023

[6] Y Swyddfa Gartref (2023), Crime outcomes in England and Wales 2022 to 2023, https://www.gov.uk/government/statistics/crime-outcomes-in-england-and-wales-2022-to-2023/crime-outcomes-in-england-and-wales-2022-to-2023

[7] Rape Crisis Cymru a Lloegr, Ystadegau am Dreisio ac Ymosodiadau Rhywiol, https://rapecrisis.org.uk/get-informed/statistics-sexual-violence/.

[8] UK Women's Budget Group (2022), The gendered impact of the cost-of-living crisis. https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/The-gendered-impact-of-the-cost-of-living-crisis.pdf

[9] Wales Women's Budget Group (2023), Far From a Vital Safety Net: Benefit Conditionality, Sanctions and Women in Wales, https://wwbg.org.uk/wp-content/uploads/2023/08/Far-From-a-Vital-Safety-Net-Benefit-Conditionality-Sanctions-and-Women-in-Wales.pdf